

Gwirionedd

Darllen: Ioan 8:31

Roedd gaeaf 2013–14 yn eithriadol o stormus. Glaw a gwyntoedd cryfion bron bob dydd, a sawl ardal dan ddŵr. Ond yng nghanol y tywydd drwg cafwyd ambell lygedyn o obaith. Cafwyd ambell fore heulog braf, ac rwyf am fynd â chi'n ôl i un ohonyn nhw.

Mi fyddaf yn dechrau ar fy ngwaith cyn i'r wawr dorri. Nid bob dydd, cofiwch! Neithiwr, roedd y wraig oedd yn darogan y tywydd yn dweud gyda gwên ar ei hwyneb y byddai heddiw'n ddiwrnod braf, ac meddai gan ychwanegu, 'Yr unig ddiwrnod braf yr wythnos hon'. Mae'n rhaid gwneud yn fawr o ddiwrnod braf yng nghanol y stormydd geirwon. Dros y gorwel gwelwn yr haul yn codi. Roedd y bore ei hun, cyn toriad gwawr, yn dywyll iawn – ambell seren a phlaned yn y golwg. Roedd goleuadau'r stryd yn goleuo'r tai, y coed a Phont y Borth. Sylwais fod cefnen o niwl yn hofran dros Afon Menai. Yna, dros y gorwel dyma oleuni cyntaf y bore'n ymddangos, ac o dipyn i beth fe oleuwyd gweddill yr awyr. Yn araf, cododd yr haul yn belen felen – y rhan uchaf i ddechrau, ac yna ei belydrau'n llifo dros y tirwedd. Goleuadau'r stryd wedi diffodd erbyn hyn, a'r tai a'r coed yn ymddangos yn eu lliwiau bob dydd. Ffurf a siâp yn ymddangos i bopeth. Rhyfeddodd y goleuni, ac o dipyn i beth drwy'r ffenest mae ei wres i'w deimlo. Ac mae'r byd i gyd wedi'i drawsnewid. Meddai Iesu, 'Cewch wybod y gwirionedd, a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau' (Ioan 8:32). Oes, mae cysylltiad rhwng ymddangosiad haul y bore, yng nghanol stormydd diddiwedd y gaeaf, a geiriau Iesu. Diflannodd y niwlen dros yr afon, a chyffyrddodd pelydrau'r haul â phob dim.

Yn yr adran hon yn Efengyl Ioan (8:31–38) ceir darlun cystal â dim o'r hyn y dylai'r gwir ddisgybl anelu ato. Y peth cyntaf a ofynnir ganddo yw credu. Credu yn Iesu fel Mab Duw, a chredu bod y cyfan a ddywedodd Iesu am Dduw, am ddyn ac am ei fywyd yn wir. Bu'n ffasiynol i ddiystyru cred a mynnu mai'r hyn sy'n bwysig yw sut y mae dyn yn byw. Ond onid

yw dyn yn byw yn ôl yr hyn y mae'n ei gredu? Mae'n rhaid i'r disgybl fod yn barod i wrando ar Iesu a dysgu oddi wrtho. Pwrpas y dysgu a'r gwranddo yw gwybod beth y mae Duw eisiau i ni ei wneud. Fe ddylai 'aros yn fy ngair' arwain at ufudd-dod i Dduw yn Iesu Grist, a thrwy hynny at 'aros ynddo ef ac yntau ynom ninnau'. Wrth gredu ynddo ac aros ynddo y daw'r addewidion. Cawn wybod y gwirionedd. Iesu ei hun yw'r gwirionedd, a thrwy berthynas ag ef y deugn i amgyffred beth yw'r bywyd llawn a beth yw'r blaenoriaethau. Yr ydym yn chwilio o hyd am y materol ac am bleserau, ac yr ydym yn dyheu am gyrraedd yr uchelfannau. Iesu'n unig sy'n gallu dysgu'r gwirionedd am fywyd i ni. O wybod y gwirionedd, fe gawn ein harwain i ryddid, 'Fe'ch gwneir yn rhyddion' (Ioan 8:33).

Fflamau tân ydi'r haul. Mae'r haul yn llosgi. Ac mae'r gwirionedd yn llosgi hefyd. Dyma agwedd i'r gwirionedd y dylem ei hyrwyddo, sef yr elfen sy'n puro ac yn treiddio. Weithiau, byddwn yn cuddio rhag y gwirionedd am ei fod yn niweidio. Ydych chi'n cofio'r tro diwethaf i chi osgoi'r gwirionedd, rhag ofn i chi bechu rhywun? Gall wynebu'r gwirionedd fod yn boenus. Ond trwy ddweud y gwir mewn ysbryd cariadus, byddwch yn gwella a chyfannu. Fel mae'r haul yn codi dros y gorwel bydd y gwir yn datgelu'r cyfan i ni.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig yw cred i'r Cristion?

Ydi gonestrwydd yn rhan o rannu'r gwirionedd ag eraill?